# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 24 Hydref 2013** |
| Amser: | **09:15 - 12:45** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_24_10_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Christine Chapman (Cadeirydd)**<br>**Leighton Andrews**<br>**Peter Black**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Rhodri Glyn Thomas**<br>**Lindsay Whittle** |
| Tystion: | **Jeff Cuthbert, Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**<br>**Owain Lloyd, Llywodraeth Cymru**<br>**Amelia John, Llywodraeth Cymru**<br>**Eleanor Marks, Llywodraeth Cymru**<br>**John Griffiths, Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon**<br>**Huw Brodie, Director of Strategic Planning & Equality**<br>**Margaret Davies, Llywodraeth Cymru**<br>**Jane Hutt, Gweinidog Cyllid** |

| Staff y Pwyllgor: | **Sarah Beasley (Clerc)**<br>**Leanne Hatcher (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Iorwerth (Ymchwilydd)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)**<br>**Jonathan Baxter (Ymchwilydd)** |
|---|---|

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jeff Cuthbert, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi.

2.2 Cytunodd y Gweinidog i'r hyn a ganlyn:

- darparu gwybodaeth am werthuso Dechrau'n Deg ac ystadegau cysylltiedig;
- ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch ymrwymiad y Gweinidog blaenorol i gyhoeddi dangosyddion perfformiad ar gyfer y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf;
- darparu canllawiau manwl am y dull gwerthuso a ddefnyddir i fonitro'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- gwybodaeth am y gwaith o graffu ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a sut y caiff ei rheoli;
- nodyn am y ffigurau a'r asesiad cyffredinol o effaith y gyllideb ar y trydydd sector;
- nodyn ar y camau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd o ran yr undebau credyd ar ôl i'r achos busnes gael ei ddadansoddi;
- nodyn ar werthuso'r canlyniadau o safbwynt gwerth am arian mewn perthynas â sefydliadau sy'n llwyddo i gael cyllid cyfalaf i gymunedau;
- nodyn yn manylu a fydd cyllid cyfalaf ar gael i safleoedd tramwy.

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

3.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan John Griffiths, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ar wariant ataliol uniongyrchol ac anuniongyrchol o ran rhai o'r rhaglenni sydd o fewn ei adran.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 - Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyllid

4.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r papur a gyflwynwyd i grŵp cynghorol y gyllideb ar gydraddoldeb gan Caroline Joll, y cynghorwr academaidd.

## 5 Papurau i’w nodi